Arwain 2016

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Alun Davies yn cael ei gyfweld gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera ar achlysur Agoriad Swyddogol Tŷ'r Gwrhyd.

Tŷ'r Gwrhyd

Canolfan newydd – cadernid a chynhaliaeth

Dr Gwenno Ffrancon, Owain Glenister, Alun Davies AC, Cyng. Ali Thomas a'r Athro Iwan Davies.

Fe fydd canolfan newydd dan adain Academi Hywel Teifi yn rhoi bywyd newydd i'r Gymraeg yn un o'r ardaloedd sydd bwysica' i ddyfodol yr iaith.

Cafodd Tŷ'r Gwrhyd, sy'n ffrwyth partneriaeth gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ei agor yn swyddogol ddechrau Gorffennaf yng nghanol Cwm Tawe.

Mae'r adeilad ym Mhontardawe'n fan cyfarfod a chanolfan ar gyfer gweithgareddau addysgol a chymdeithasol ar gyfer cynulleidfa o bob oedran a cheir yno hefyd wersi dysgu Cymraeg.

Mae Tŷ'r Gwrhyd hefyd yn gartref i siop lyfrau Cymraeg a swyddfeydd y Fenter Iaith, Urdd Gobaith Cymru a Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe.

Yn ôl Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, Dr Gwenno Ffrancon, mae'r ganolfan eisoes wedi tynnu mwy o sylw i'r iaith yn yr ardal ac wedi ysbrydoli teuluoedd i ail-afael yn y Gymraeg.

Wrth agor Tŷ'r Gwrhyd, fe ddywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC, y bydd y ganolfan "yn cyfrannu'n fawr tuag at annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg a bod â'r hyder i ymarfer y Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol."

Mae ardal Castell-nedd Port Talbot "o bwysigrwydd strategol i'r Gymraeg", meddai Alun Davies.

Mae mwy na 15% o'r boblogaeth yn medru'r iaith ond mae peryg iddi golli ei lle yn iaith gymunedol yng Nghwm Tawe a Chwm Nedd, lle mae'n parhau'n gymharol gryf.

Fe gafodd y ganolfan ei hagor gyda chymorth grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i harweinir gan Gwenno Ffrancon a Sioned Williams o'r Academi.

Gwaith ymchwil gan ddau aelod arall o'r Academi, Heini Gruffudd a Steve Morris, oedd wedi sbarduno'r Llywodraeth i fabwysiadu'r polisi er mwyn gwrthdroi'r newid iaith mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn colli tir.

Mae hyd yn oed yr enw Gwrhyd yn cyfleu amcanion y ganolfan newydd, meddai Gwenno Ffrancon.

"Enw un o fynyddoedd Cwm Tawe yw Gwrhyd, ac chan fod y gair yn gallu golygu'r hyd rhwng breichiau ar led, mae'n adlewyrchiad addas o'n nod o ymestyn breichiau o gwmpas y gymuned a'r iaith gan estyn croeso a chynhaliaeth.

"Mae hefyd yn gallu golygu cadernid, dewrder a gwroldeb – a'n gobaith yw mynnu cadernid i'r Gymraeg wrth geisio atal y dirywiad ieithyddol yn ardal Cwm Tawe a Chwm Nedd.

Mae rhaglen lawn o weithgaredd yn ei lle eisoes ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r gymuned leol i ddefnyddio'r adnoddau."

Rhoi Cymru ar y blaen ym maes cyfrifiaduron

Mae cynllun arloesol i ddatblygu canolfan ymchwil gyfrifiadurol o'r radd flaena' ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe wedi dod gam yn nes.

Y gobaith yw y bydd gwaith ar y Ffowndri Gyfrifiadurol gwerth £31 miliwn yn dechrau cyn diwedd y flwyddyn, ar ôl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gymeradwyo'r cynlluniau.

Fe fydd Y Ffowndri wedi'i chynllunio'n unswydd ar gyfer cyfrifiadurwyr, lle bydd ymchwilwyr academaidd yn cydweithio â busnesau o bob maint a sector.

Fe fydd y Crwsibl Ymchwil o fewn y Ffowndri yn cynnig lle i dros 150 o ymchwilwyr, mewn labordai ymchwil a datblygu, ac fe fydd digonedd o ystafelloedd addas hefyd ar gyfer dysgu a chynnal digwyddiadau, yn ogystal â gofod rhwydweithio ac ysbrydoli.

Y gobaith yw y bydd yn datblygu'n gymuned fywiog o arweinwyr ym maes ymchwil i'r gwyddorau cyfrifiadurol, yn ôl yr Athro Matt Jones, Pennaeth y Coleg Gwyddoniaeth, a arweiniodd y cais llwyddiannus am gyllid o £17 miliwn o Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop.

"Y nod yw gwneud Cymru'n gyrchfan fyd-eang i ymchwilwyr, partneriaid diwydiannol a myfyrwyr," meddai.

Fe fydd yr adeilad 745 metr sgwâr yn croesawu ei staff a'i fyfyrwyr cynta' ym mis Medi 2018.

Gwobrwyo gwyddonydd Her yr Hinsawdd

Mae ymchwilydd blaenllaw ym maes newid yn yr hinsawdd wedi cael ei gwobrwyo am ei chyfraniad i wyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Athro Siwan Davies o Adran Daearyddiaeth Prifysgol Abertawe wedi gweld â'i llygaid ei hun beth yw effaith newid hinsawdd ledled y byd ac mae ffrwyth ei hymchwil i'w weld ar hyn o bryd ar S4C.

Hi yw enillydd Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni – gwobr sy'n cael ei rhoi i ysgolhaig 40 oed neu iau i gydnabod ymchwil yn y gwyddorau a chyfraniad i addysgu'r gwyddorau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliad addysg uwch.

Cafodd ei galw'n ysgolhaig o'r radd flaenaf, yn un o sêr ymchwil mwya' blaenllaw Prifysgol Abertawe ac un sydd wedi gwneud enw iddi'i hun yn rhyngwladol.

Mae hi hefyd wedi cyfrannu'n helaeth at ddatblygu maes Daearyddiaeth Ffisegol trwy gyfrwng y Gymraeg gydag o leiaf ddwy ran o dair o'r cwrs gradd bellach yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y gyfres deledu, Her yr Hinsawdd, a gynhyrchwyd gan gwmni Telesgop, mae Siwan Davies yn dangos sut mae'r hyn sy'n digwydd yn yr Ynys Las yng nghylch yr Arctig yn effeithio ar Ynysoedd y Maldives yn y trofannau yng nghefnfor India.

"Yr hyn a welwch yn yr Ynys Las yw mynyddoedd ia yn dymchwel i'r môr a thoddi oherwydd y cynnydd mewn tymheredd," meddai. "Canlyniad hynny yw bod lefel y môr yn codi ac yn bygwth tiroedd isel Ynysoedd y Maldives, filoedd o filltiroedd i ffwrdd."

"Gwyddonydd ydw i, ac astudio data fydda i bob dydd, ond y tro hwn dwi wedi gadael fy labordy er mwyn gweld â'm llygaid fy hun sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar bobl heddiw. Roedd hi'n frawychus clywed am brofiadau'r bobl ond roedd 'na obaith hefyd a chefais fy ysbrydoli wrth weld sut mae cymunedau mewn perygl difrifol yn ymateb a gweithredu i ddelio gyda'r sialensiau."

"Mae Siwan wedi sicrhau datblygiad aruthrol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei phwnc yn Abertawe," meddai Dr Hefin Jones, Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wrth gyflwyno'r wobr a sefydlwyd gan rieni Dr Eilir Hedd Morgan, er cof am y gwyddonydd ifanc, disglair a fu farw'n 29 oed.

"R'yn ni yn y Coleg Cymraeg wedi bod ar ein hennill yn fawr o waith Siwan Davies fel arweinydd, addysgwraig a goruchwylydd ymchwil penigamp."

Hybu'r Gymraeg mewn iechyd a gofal

Mae cynllun newydd ym Mhrifysgol Abertawe'n helpu i sicrhau bod mwy o weithwyr proffesiynol yn gallu siarad a defnyddio eu Cymraeg ym maes iechyd a gofal.

Mae'n golygu bod myfyrwyr yn y meysydd hynny'n cael cyfle i gymryd cyrsiau dysgu Cymraeg law yn llaw â'u prif astudiaethau.

"R'yn ni wedi bod yn cydweithio â darlithwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cyrsiau penodol ar gyfer myfyrwyr meddygaeth, bydwreigiaeth a gwaith cymdeithasol ar y campws," meddai Rhian Haf Davies, Swyddog Datblygu gyda Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe yn Academi Hywel Teifi.

"Gan ddechrau gyda sesiynau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg, mae myfyrwyr meddygol wedi bod yn dilyn cyrsiau wythnosol i ddechreuwyr," meddai. "Mae'r rhain wedi bod mor boblogaidd fel ein bod wrthi'n datblygu cwrs dilyniant erbyn y bydd y myfyrwyr hyn ar eu hail flwyddyn ym mis Medi."

Mae'r cyrsiau'n werthfawr i'r myfyrwyr sy'n aml yn cael eu hanfon ar leoliad i'r Fro Gymraeg yng ngorllewin a gogledd Cymru, yn ôl Dr Heledd Iago, darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr Ysgol Feddygol.

"Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn dod ar draws siaradwyr Cymraeg, gyda nifer ohonyn nhw'n sylwi ar bwysigrwydd iaith yn un o anghenion creiddiol gofal da.

‘Y Llyfrgell’ ar y sgrîn fawr

Fe fydd addasiad ffilm o nofel a enillodd Wobr Daniel Owen yn cael ei dangos am y tro cyntaf yng Nghymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni.

Mae’r ffilm eisoes wedi cael sylw rhyngwladol wrth ennill gwobr bwysig adeg ei lansio yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Caeredin.

Drama ias yw *Y Llyfrgell* gan Dr Fflur Dafydd, uwch-ddarlithydd ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Abertawe, ac mae’r stori wedi ei gosod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Yng Ngŵyl Ffilmiau Rhyngwladol Caeredin ddiwedd mis Mehefin, seren y ffilm, Catrin Stewart, oedd enillydd y wobr am y ‘Perfformiad Gorau mewn Ffilm Brydeinig’ ac roedd y ffilm ei hun wedi ei henwebu yng nghategori’r ‘Ffilm Brydeinig Orau’.

“Fel ffilm y gwnes i ddychmygu’r syniad hwn yn wreiddiol, ond ysgrifennu llyfr a wnes i yn y pen draw,” meddai Fflur Dafydd.

“Mae gweld y cymeriadau hyn yn dod yn fyw ar y sgrîn fawr yn dod â’r freuddwyd yn fyw.

Mae’r ffilm wedi ei chyfarwyddo gan Euros Lyn, sydd wedi cyfarwyddo *Sherlock*, *Last Tango In Halifax*, *Broadchurch*, *Black Mirror*, a *Daredevil* ymhlith pethau eraill, a’r cast yn cynnwys Ryland Teifi, Catrin Stewart, Dyfan Dwyfor a Sharon Morgan.

● **Ar ôl cael ei dangos yn yr Eisteddfod, fe fydd *Y Llyfrgell* i’w gweld mewn sinemâu yn ystod mis Awst.**

Bargyfreithiwr o fri yn arwain Coleg y Gyfraith

Mae un o fargyfreithwyr mwya’ blaenllaw y Deyrnas Unedig bellach yn Bennaeth Coleg y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Abertawe.

Yn ogystal â bod yn Gwnsler y Frenhines ac yn bennaeth siambr o fargyfreithwyr, mae Elwen Evans hefyd yn Gofiadur Llys y Goron.

Mae’r bargyfreithiwr sy’n wreiddiol o Sir Ddinbych ar y brig yn ei maes, ac roedd yn llygad y cyhoedd wrth arwain yr erlyniad yn achos llofruddiaeth April Jones a’r amddiffyniad yn achos trychineb glofa’r Gleision.

“Mae’n bleser mawr cael cyfle i arwain tîm a fydd yn

dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf o raddedigion y gyfraith a chyfreithwyr,” meddai Elwen Evans.

Mae’r rôl, meddai, yn rhoi’r cyfle iddi chwarae rhan ehangach yn nyfodol y gyfraith yng Nghymru.

“Rydym yn wynebu pen-derfyniadau allweddol ym myd y gyfraith, gan gynnwys beth yw cwmpas addysg ac ysgolheictod cyfreithiol a datblygiad awdurdodaeth Cymru i ddeddfu, ac mae’n bwysig ein bod yn cyfnewid syniadau,” meddai.

“Mae trafodaethau mawr ynghylch sut y bydd cyfreithwyr yn cymhwyso yn y dyfodol, beth fydd effaith cyfathrebu digidol ar wasanaethau cyfreithiol – heb sôn am y newidiadau cyson yn y gyfraith ar bob lefel o lywodraeth.

“Mae’n holl bwysig sicrhau bod ein myfyrwyr wedi’u paratoi’n drylwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol – a’u bod yn mwynhau pob cam o’r daith.”

“Mae’r cyfle wedyn i allu dilyn cwrs Cymraeg sy’n benodol ar gyfer y maes meddygaeth wedi bod o ddiddordeb mawr.

“Mae’r cwrs hefyd yn ffordd o gyflwyno a normaleiddio’r Gymraeg i fyfyrwyr nad ydyn nhw wedi byw yng Nghymru o’r blaen – fel eu bod yn gallu bod yn rhan o ddarparu gwasanaethau Cymraeg ac yn deall pwysigrwydd penodol y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd, hyd yn oed os nad ydyn nhw’n rhugl eu hunain.”

Bydwragedd a gofalwyr

Mae cyrsiau tebyg i fyfyrwyr sy’n astudio pynciau eraill wedi bod yn llwyddiant hefyd, yn ôl Rhian Haf Davies, gyda’r myfyrwyr bydwreigiaeth yn dilyn cwrs wythnos dwys a rhai o’r darlithwyr gwaith cymdeithasol yn ymuno â’r myfyrwyr ar gyrsiau iaith Gymraeg.”

Nid myfyrwyr yn unig sy’n elwa o arbenigedd yr Academi wrth ddarparu cyrsiau Cymraeg, ond hefyd aelodau o’r gweithlu iechyd yn ne Cymru. Mae staff Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe wrthi, er enghraifft, yn dysgu cyrsiau Cymraeg i ofalwyr mewn cartrefi gofal yn ardaloedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

“Mae’r rhain wedi profi’n boblogaidd iawn ymysg y gweithwyr ac yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr iawn gan breswylwyr y cartrefi hyn sy’n siarad Cymraeg fel mamiaith,” meddai Rhian Haf.

Rhai o lwyddiannau eraill Prifysgol Abertawe yn 2016

★ Cyrhaeddodd **5 o awduron o Brifysgol Abertawe restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2016,** sef Yr Athro Owen Sheers, Yr Athro Daniel G. Williams, Dr Jasmine Donahaye, Dr Simon Brooks a Jon Gower.

★ **Llongyfarchiadau mawr i’r Athro Tudur Hallam,** Athro’r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, am **ennill Ysgoloriaeth Fulbright**, sef gwobr ryngwladol, gystadleuol a ddyfernir ar sail teilyngdod a rhagoriaeth. Bydd yr Athro Hallam yn treulio saith mis ym Mhrifysgol Houston, Tecsas, yn cydweithio ag academyddion yno ar ei brosiect, ‘Ail-lunio dyfodol diwylliant: cymharu sefyllfa’r Gymraeg â threftadaeth Sbaenaidd Unol Daleithiau’r Amerig’.

★ **Academi Hywel Teifi oedd noddwr Pabell Lenyddiaeth Tafwyl 2016** lle cynhaliwyd nifer o sesiynau amrywiol a phoblogaidd, gan gynnwys lansiad cyfrol newydd Aneirin Karadog; trafodaeth rhwng Yr Athro Alan Llwyd a’r Athro Christine James ar fywyd a gwaith Gwenallt, a Dr Elain Price yn trafod cynnwys ei chyfrol newydd ar hanes S4C gyda Beti George.

★ Denwyd dros **30,000 o ymwelwyr eleni eto i’r GwyddonLe** yn Eisteddfod yr Urdd Y Fflint. Yn sgil hynny, mae Prifysgol Abertawe ac Urdd Gobaith Cymru wedi cytuno ar drefniant pum mlynedd arall ar gyfer y GwyddonLe. Mae hyn yn adeiladu ymhellach ar gryfder y Brifysgol mewn cyfathrebu gwyddoniaeth – enw da sydd wedi arwain at Brifysgol Abertawe yn ennill y cyfle i gynnal **yr Ŵyl Wyddoniaeth Brydeinig yn y ddinas ym mis Medi eleni.**

★ Mae **Dr Simon Brooks wedi ymuno ag Academi Hywel Teifi** er mwyn golygu’r **Esboniadur Beirniadaeth a Theori**, sef cyhoeddiad ar-lein dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd yr Esboniadur yn cynnwys diffiniadau o ffurfiau llenyddol, ynghyd â thrafodaeth ar dermau o fyd theori ddiwylliannol, ac hefyd cofnodion am wahanol feirniaid llenyddol Cymraeg. I weld y gwaith diweddaraf, ewch i wici y Coleg Cymraeg, sef y Porth.

Casglu 10 miliwn o eiriau Cymraeg

Mae aelodau o staff Adran y Gymraeg, Academi Hywel Teifi ymhlith tîm sy'n gweithio ar draws sawl disgyblaeth i gasglu a chofnodi miliynau o eiriau Cymraeg.

Creu ffynhonnell o wybodaeth sy'n dangos sut y caiff yr iaith gyfoes ei defnyddio o ddydd i ddydd yw nod prosiect ymchwil uchelgeisiol CorCenCC – sef Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes.

Corff o eiriau a thestunau yw corpws, a'r bwriad yw casglu 10 miliwn o eiriau Cymraeg at ei gilydd mewn set ddata gychwynnol, a fydd yn cynrychioli'r defnydd o'r iaith ar lafar, ar bapur ac yn electronig, er enghraifft ar gyfryngau digidol.

Mae'r Corpws yn bartneriaeth dan arweiniad Prifysgol Caerdydd ac yn cynnwys prifysgolion Bangor a Chaerhirfyn yn ogystal ag Abertawe. Ymhlith y prif ymchwilwyr mae Mark Stonelake, Rheolwr Datblygu Proffesiynol ac Ansawdd gyda Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe a Steve Morris, Athro Cysylltiol yn Adran y Gymraeg, Academi Hywel Teifi.

"Does yna'r un corpws cynhwysfawr yn y Gymraeg ar hyn o bryd, felly r'yn ni'n torri tir newydd," meddai Steve Morris.

"Archwilio'r Gymraeg fel y mae yr 'yn ni, gan gofnodi'r iaith yn ei holl amrywiaeth rhanbarthol a chymdeithasol ac mewn gwahanol gyd-destunau.

"Mae corpws iaith yn cael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr, geiriadurwyr, athrawon, dysgwyr, llunwyr polisi, cyfieithwyr ac eraill.

"Mae hefyd yn hanfodol i ddatblygu technegau fel offer adnabod llais, darogan testun a pheiriannau chwilio'r we.

"Ein gobaith yw y bydd y Corpws yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus, masnachol, addysgol a llywodraethol."

Dechreuodd y gwaith ar greu CorCenCC ym mis Mawrth a phenodwyd dau gynorthwy-ydd ymchwil i weithio ar y prosiect yn Abertawe, sef Dr Jenny Needs a Dr Mair Rees.

"Elfen unigryw gyda CorCenCC yw'r ffaith ein bod yn recriwtio cyfranwyr trwy app sy'n golygu bod modd i siaradwyr recordio eu hunain a lanlwytho eu data," meddai Steve Morris.

"Bydd gwybodaeth am y prosiect yn cael ei ddosbarthu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, sioeau teithiol a digwyddiadau eraill yn ogystal â'r teledu a'r radio."

Cofio Hywel Teifi

Mae'r arian yn dal i lifo i mewn i Gronfa Goffa Hywel Teifi a gafodd ei sefydlu i barhau â gwaith a gweledigaeth cyn-Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r gronfa eisoes yn cefnogi prosiectau a chyfleoedd i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol, ac fe fydd yn helpu i sicrhau twf pellach yng ngwaith y ganolfan ragoriaeth, Academi Hywel Teifi.

Cafodd y gronfa hwb ychwanegol yn gynharach eleni gyda help mab Hywel Teifi, sef y darlledwr adnabyddus Huw Edwards.

Ef oedd y siaradwr gwadd mewn cinio mawreddog yn Neuadd Fawr newydd Campws y Bae a lwyddodd i godi dros £12,000 i'r Gronfa. Mynychodd dros 120 o bobl y cinio, gan gynnwys ffigyrau blaenllaw o fyd darlledu a'r cyfryngau, y byd addysg uwch a threftadaeth, y byd chwaraeon a gwleidyddiaeth a'r sector fusnes.

"R'yn ni fel teulu'n ddiolchgar iawn i Brifysgol Abertawe am gynnal enw Dad trwy sefydlu Academi Hywel Teifi sy'n gwneud cymaint dros dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg," meddai.

"Roedd yn hyfryd gweld cymaint o gyfeillion o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt wedi ymuno â ni ar y noson, ac roedd yn dda gen i ddathlu a chefnogi gwaith a gweledigaeth y ganolfan flaengar hon."

"Roedd hon yn noson arbennig," meddai Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr yr Academi, "gydag Elin Manahan Thomas yn ein diddanu â'i llais swynol, Huw Edwards yn ffraeth wrth gofio am gyfraniad a gwaith ei dad, tra bu'r arwerthiant ar ddiwedd y noson yn llwyddiant aruthrol. Roedd hi'n hyfryd cael cofio yn y modd hwn am Hywel Teifi a dathlu pum mlynedd o fodolaeth a llwyddiant yr Academi sy'n dwyn ei enw."

Huw Edwards